TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

City & Guilds Diploma mewn Gofal Ceffylau Seiliedig ar Waith Lefel 1

Yn gryno

Mae ein cyrsiau Astudiaethau Galwedigaethol wedi eu cynllunio i'ch cyflwyno i'r maes astudio sydd o ddiddordeb i chi ac i'ch helpu i ddatblygu sgiliau dysgu ehangach.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych chi'n ansicr beth y dymunwch wneud

... Ydych chi'n dymuno rhoi cynnig ar fwy nac un maes galwedigaethol

... Ydych chi'n dymuno datblygu sgiliau ymarferol, trosglwyddadwy

Beth fyddaf yn ei wneud?

Bydd y cwrs hwn y darparu ystod o gyfleoedd symud ymlaen i chi, gan gynnwys dysgu ychwanegol yn y coleg ar un o'n cyrsiau lefel nesaf, prentisiaeth neu gyflogaeth!

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn cael y cyfle i roi cynnig ar fwy nac un maes galwedigaethol a magu dealltwriaeth o fywyd coleg. Byddwch yn datblygu sgiliau ymarferol, trosglwyddadwy a chwblhau tasgau sy'n canolbwyntio ar ddangos beth y gallwch wneud a beth rydych chi wedi ei ddysgu.

Yr un yw'r unedau craidd ar draws ein holl gyrsiau Astudiaethau Galwedigaethol, fydd yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau o fewn eich dewis faes galwedigaethol. Os oes angen i chi newid i gwrs gwahanol, gallwch drosglwyddo'r unedau a astudiwyd ar y cwrs hwn i'ch un nesaf, os oes angen.

Mae'r unedau craidd y byddwch yn dilyn yn cynnwys:

Bod yn drefnus
Datblygu cynllun cynnydd
Gweithio gydag eraill
Ymchwilio i bwnc

Gall yr unedau amaethyddol ac anifeiliaid gynnwys:

Dysgu am y sector amaethyddol
Gofalu am a bwydo anifeiliaid
Symud a lletya anifeiliaid
Tyfu planhigion
Gofalu am a chadw planhigion yn iach
Defnyddio teclynnau gweithdy mewn lleoliad amaethyddol
Defnyddio peirianwaith amaethyddol
Paratoi pridd ar gyfer plannu

Byddwch yn cael eich asesu trwy aseiniadau, tasgau ac asesiadau ymarferol a byddwch yn ennill:

BTEC Lefel 1 Diploma mewn Astudiaethau Galwedigaethol
Gweithgareddau Sgiliau
Mathemateg a Saesneg (os nad ydych chi wedi ennill gradd C neu uwch ar lefel TGAU)
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Bydd angen bod yn frwdfrydig, diwyd a bodlon rhoi cynnig ar bethau newydd yn y meysydd galwedigaethol. Bydd disgwyl i chi ymarfer sgiliau a thechnegau mewn amgylcheddau gwaith realistig o fewn y coleg, gan eich galluogi i adeiladu ar eich sgiliau cyflogadwyedd. Mae

presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer yr holl sesiynau yn ofyniad gorfodol i'r cwrs hwn.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Gallech barhau eich astudiaethau ar Lefel 2 mewn maes galwedigaethol o'ch dewis
Gallech symud ymlaen at brentisiaeth
Gallech gael swydd yn eich dewis faes

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen i chi fod wedi cael chwistrelliad tetanws diweddar cyn dechrau gweithio gyda'r anifeiliaid.

Am resymau Iechyd a Diogelwch, bydd angen ichi brynu Cyfarpar Diogelwch Personol (PPE) cyn gweithio gyda'r anifeiliaid; wellingtons bodiau dur, oferôlau glas tywyll a bag i gario eich PPE, a chost y cyfarpar yw tua £40.

Ceffylau: Het farchogaeth (safonau presennol Cymdeithas Ceffylau Prydain), esgidiau buarth, jodhpurs, esgidiau marchogaeth, menig (os ydych yn marchogaeth). Mae'r costau hyn yn amrywio.

Dylid prynu'r eitemau hyn cyn dechrau eich cwrs ond byddwch yn gallu trafod y gofynion wrth gofrestru.

Efallai y bydd costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.